
# Ficer newydd yn Nolwyddelan



Cafodd y Parchedig Stuart Elliott ei eni yng Nghaersallog, Swydd Wiltshire. Mae o bron iawn wedi bod o gwmpas Cymru i gyd yn ystod y 22 mlynedd diwethaf gan fyw ym Mangor, Llanrug, Caerdydd, Treffynnon a Gronant (ger Prestatyn). Erbyn heddiw mae o'n gwasanaethu plwyfi Betws y Coed a Chapel Curig ynghyd â Dolwyddelan a Phenmachno. Mae o'n byw yn Y Ficerdy ym Metws y Coed gyda'i wraig Helen a'u dwy ferch sydd yn eu harddegau.

www.reluctantordinand.co.uk

*"Yn araf, rydw i wedi dod i ddeall mai un o fy nhasgau ydy helpu pobl i ailgysylltu â'r ddaear a hyrwyddo bywyd ysbrydol mwy cyflawn sy'n rhoi pwyslais ar ba mor ysgafn allwn ni droedio ar y ddaear hon. Dyma ydy fy nhasg i dw i'n meddwl. Mae hi'n amlwg imi yn barod fod llawer yma wedi dechrau ar y daith hon ac rydw i'n gobeithio y galla i ymuno â nhw. I'r rheiny sydd heb fentro eto, efallai y gallwn ni ddod o hyd i ffyrdd newydd gyda'n gilydd."*







Llongyfarchiadau i **Mrs Nellie Wyn Hughes** o **Dolwen**, Dolwyddelan, am ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth **Cymdeithas Dai Cynefin** am **'yr ardd orau yn 2015.'**

Y Cynghorydd Liz Roberts, Cadeirydd Cyngor Bwrdeistef Sirol Conwy Yn Cyflwyno

**CYNGERDD ELUSENNOL**

Er Budd Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

Dydd Sul 13 Medi, 7.30yp — Venue Cymru, Llandudno

Tocynnau: **£10** — Swyddfa Docynnau: **01492 872000**